

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Cofnodion

Teitl y cyfarfod:

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Lleoliad: Cyfarfod dros Microsoft Teams

Dyddiad y Cyfarfod: 23 Ionawr 2023

Yn bresennol:

Zoe Henderson, (Cadeirydd ac aelod o Fwrdd CNC)

David Letellier, CNC

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Dennis Matheson, TFA

James Ruggeri, HCC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Mathew Walters, Llywodraeth Cymru

Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Ruth Johnston, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Nick Fenwick, Undeb Amaethwyr Cymru

David Ball, AHDB

Fraser McAuley, CLA

Nichola Salter, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Delyth Lewis-Jones, AHDB

Ieuan Stephen Davies, CNC

Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:

Caroline Moscrop, CNC (Eitem 4)

Ysgrifenyddiaeth:

Bronwen Martin, CNC

Ymddiheuriadau:

Kate Snow, United Utilities

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Marc Williams, CNC

Katy Simmons, CNC

Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru) bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.
2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.
 - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent ddatgan hefyd a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

Eitem 2 Adolygu'r Cofnodion a'r camau gweithredu

3. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan y grŵp ac yna'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Mae'n bwysig felly fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
4. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2022. Ni chafwyd unrhyw sylwadau na gwelliannau awgrymedig mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Rhagfyr.

Eitem 3 Materion yn codi

5. Anogwyd y grŵp i drafod unrhyw faterion a gododd o gofnodion y cyfarfod blaenorol, dogfennau perthnasol, neu bynciau diweddar.

6. Soniodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio am Bwynt 31 o gofnodion cyfarfod mis Rhagfyr lle soniodd Fraser McAuley am aelod o CLA a oedd â diddordeb mewn ymuno â Grŵp Dŵr y Bannau. Dywedodd Einir y bydd cefnogaeth gan Cyswllt Ffermio drwy raglen newydd sy'n dechrau yn y Gwanwyn lle bydd hwyluswyr ar gael ar gyfer unrhyw grwpiau newydd ar gyfer ansawdd dŵr o fis Ebrill ymlaen. Dywedodd Einir os oes gan rywun ddiddordeb mewn dechrau grwpiau newydd yna gall Cyswllt Ffermio helpu gyda'r rheiny.
7. Cyfeiriodd Matthew Walters, Llywodraeth Cymru at ymgynghoriad y Llywodraeth ar y cynllun trwyddedu arfaethedig a lansiwyd ar 25 Tachwedd sy'n gorffen ar 17 Chwefror 2023. Atgoffodd Matthew y grŵp ei bod hi'n bwysig cymryd rhan yn y broses ymgynghori. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried ac yn asesu'r adborth cyn i'r Gweinidog benderfynu ar y ffordd ymlaen. Efallai y byddai angen newid deddfwriaethol yn y Senedd a fyddai angen ei linell amser ei hun. Felly, ni fydd hon yn broses gyflym unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi cau, ac fe allai fod yn beth amser cyn i benderfyniad gael ei wneud yn gyhoeddus. Hefyd, rhaid i ni ystyried y dyddiad cau 30 Ebrill ar gyfer gweithredu'r terfyn tail da byw 170kg/ha.

Gofynnodd Zoe i Matthew egluro bod y terfyn 170kg/ha yn dod i rym ar 30 Ebrill 2023. Cadarnhaodd Mathew hynny, a'i fod wedi'i symud o 31 Ionawr 2023 i 30 Ebrill 2023. Cyfeiriodd Zoe at yr hyn a ddywedodd Matthew yn gynharach a gofynnodd iddo egluro na fydd cynllun newydd (os yw Llywodraeth Cymru'n penderfynu cyflwyno cynllun trwyddedu) yn ei le erbyn y dyddiad hwnnw. Dywedodd Matthew na fyddai'r cynllun ar waith yn llawn o reidwydd gan nad ydym wedi adolygu pob cais o bosibl, ond ein dyhead presennol yw cael ateb i bobl cyn hynny. Ond mae hynny'n cael ei ystyried yn y ddogfen ymgynghori lle rydym wedi cynnwys cyfnod o dri mis ar gyfer ceisiadau.

Dywedodd David Ball, AHDB ei bod yn ddealladwy mai go brin y bydd penderfyniad cyflym ar hyn. Mae llawer i'w ystyried, ac eto bydd y terfyn 170kg/ha yn dod i rym ar 30 Ebrill a bydd rhai ffermwyr mewn penbleth o ran a ydyn nhw'n gweithio tuag at 170kg/ha neu 250kg/ha. Gofynnodd David a yw Lywodraeth Cymru'n rhagweld y gallan nhw ateb ymgeiswyr erbyn diwedd Ebrill. Dywedodd Matthew ei bod yn debygol nad ydyn nhw'n mynd i gael atebion i ymgeiswyr erbyn diwedd Ebrill. Gofynnodd David a yw Llywodraeth Cymru'n dal i ddisgwyl i ymgeiswyr wneud cais yn ystod mis Mawrth ac Ebrill. Eglurodd Matthew fod y ddogfen ymgynghori'n dweud y bydd Llywodraeth Cymru'n caniatáu cyfnod o dri mis i dderbyn ceisiadau.

Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, fod y datganiad ysgrifenedig yn cyfeirio at Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) er mwyn asesu effaith economaidd ac amgylcheddol terfyn 170 kg/ha. Gofynnodd Rachel i Matthew a allai roi diweddariad ar y broses honno. Dywedodd Matthew ei bod yn bwysig pwysleisio'r ffaith bod gan RIAs bwrpas penodol iawn yn y broses ddeddfwriaethol. O ran y datganiad ysgrifenedig, roedd yn golygu llawer mwy na dim ond aseiad RIA o effaith y terfyn 170kg. Ar hyn o bryd rydyn ni'n ei weld fel dau ddarn o waith ar wahân i'w dorri i lawr i'r gofynion deddfwriaethol. Os ydym am ddilyn opsiwn cynllun, yna mae'n rhaid i ni wneud newidiadau i'r rheoliadau, felly mae'n rhaid i'r aseiad gael ei wneud ar y cynllun hwnnw yn unig am y cyfnod hwnnw, ac ar effeithiau'r newidiadau penodol hynny wedyn. Mae gennym yr opsiwn o adolygiad ehangach a allai ymgorffori'r gwaith a wnaed ar gyfer yr RIA (ar gyfer dylunio'r cynllun), ond hefyd ychydig yn ehangach gan ddefnyddio rhai o'r aseidiadau tuag at yr adolygiad pedair blynedd a chael mwy o amser

a chyfle i'w adolygu'n fwy manwl os/pan fydd y cynllun trwyddedu ar waith. Ond bydd RIA penodol i'r cynllun, byddai'n gorfod mynd ochr yn ochr ag unrhyw newid deddfwriaethol. Gofynnodd Rachel a yw Llywodraeth Cymru wedi dechrau ar y gwaith hwnnw. Dywedodd Matthew eu bod wedi dechrau ychydig o waith o ran asesu'r terfyn 170kg/ha. O ran y dyluniad RIA terfynol gwirioneddol, nid ydym wedi dechrau'r gwaith hwn yn llawn oherwydd ein bod yn gorfod ei ddylunio mewn ffordd lle mae'n fwy modiwlaid oherwydd yr opsiynau o fewn yr ymgynghoriad drafft. Bydd yn dibynnu ar ba opsiynau neu os bydd unrhyw opsiynau'n cael eu dewis, sut fydd yn edrych yn y pen draw. O ran rheoli'r llinell amser, rydym yn ceisio edrych ar fodiwlau unigol dyluniad yr ymgynghoriad yn gyntaf ar gyfer persbectif yr RIA a'r newid deddfwriaethol. Gall lywio sut yr awn ati i adolygu'r terfyn 170kg/ha yn ehangach hefyd.

Dywedodd Dennis Matheson, TFA bod Matthew wedi sôn y gallai ffosffadau gael eu cynnwys. Os ydych chi'n codi'r terfynau ar nitrogen a bod y terfynau'n cael eu cyflwyno ar ffosffad, yna gallai hynny gael blaenoriaeth. Nododd Dennis fod grŵp ar wahân yn cael ei sefydlu i edrych ar ffosffad, sy'n rhywbeth y dylid fod wedi'i integreiddio â'r grŵp hwn erioed. Rydym wedi gwneud llawer o waith ar ffosffad, ond nawr mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp ar wahân. Fe allai casgliadau'r grŵp hwnnw arwain at oedi'r casgliadau ar y terfyn. Dywedodd Matthew fod Andrew Chambers yn ymwneud â'r gwaith ffosffad, yn enwedig y gweithgor a sefydlwyd o ganlyniad i Uwchgynhadledd Ffosffad y Prif Weinidog a gynhaliwyd yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd. Mae cyfarfod o'r gweithgor hwnnw ar y gweill yn fuan iawn. Mae'n rhywbeth rydyn ni'n bwriadu ei integreiddio a dyna pam na fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y cynllun trwyddedu o reidrwydd. Mae ystyriaethau a ffactorau eraill, fel ystyriaethau cyfreithiol megis ystyried yr effaith ar gyfarwydddebau eraill fel y Gyfarwydeb Cynefinoedd. Mae'n rhaid i ni asesu effeithiau gwahanol drwyddedau unigol ac rydyn ni'n ystyried sut allai hynny ymddangos fel rhan o'r prosesau asesu ac ymgeisio. Mae gwaith yn parhau gyda'r ffosffadau sy'n ehangach nag amaethyddiaeth yn unig. Mae ymgynghoriad y cynllun hwn ar yr agenda i'r gweithgor hwnnw ei drafod oherwydd yr effeithiau.

8. Gofynnodd Zoe i Matthew am y broses Mesurau Amgen ac a oes unrhyw amseriadau ar gyfer hynny. Dywedodd Matthew fod Andrew'n gweithio ar y fframwaith asesu ar hyn o bryd. Dywedodd Matthew y byddai'n cael diweddariad ysgrifenedig gan Andrew. Mae'n ddarn pwysig o waith ac mae Llywodraeth Cymru wedi cael mesurau digon diddorol. Bydd yn rhaid iddyn nhw ystyried hefyd lle gallai'r cynllun trwyddedu effeithio ar y Mesurau Amgen hefyd.

PG 01 Ionawr: Matthew Walters neu Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru i ddarparu diweddariad ysgrifenedig am hynt y broses Mesurau Amgen.

9. Soniodd Zoe fod cyfarfod diweddaraf y Grŵp Goruchwylio Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (SACROG) wedi'i gynnal ar 12 Ionawr 2023. Nid oedd Zoe na Delyth Lewis-Jones, AHDB yn gallu mynychu'r cyfarfod. Dywedodd Zoe ein bod am gynnal cysylltiad cryf gyda'r Grŵp Amaeth Technegol hefyd (dan gadeiryddiaeth Delyth) sydd yn trafod ffosffadau o safbwynt amaethyddol. Mae Zoe wedi derbyn diweddariad byr i'w ddarllen ynglŷn â chyfarfod diweddar SACROG, a ddarparwyd gan Rhian Thomas, CNC:

'Cafwyd diweddariad gan bob sefydliad ac roedd y Gweinidog Julie James yn bresennol i ddangos cefnogaeth i'r syniad o gydweithio a chyfrannu at y Cynllun Gweithredu. Mae'r aelodau wedi cael cyfle i roi sylwadau ar y Cynllun Gweithredu. Yna bydd Llywodraeth Cymru'n diwygio yn ôl y gofyn, gan mai'r bwriad yw ymrwymo i'r

camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu yn uwchgynhadledd y Prif Weinidog ar 9 Chwefror (digwyddiad trwy wahoddiad yn unig).'

Gofynnodd Zoe a yw'r cynllun gweithredu wedi'i rannu gyda'r grŵp hwn. Dywedodd Bronwen nad yw wedi'i rannu ond y byddai'n holi a fyddai modd ei gylchredeg.

PG 02 Ionawr: Bronwen Martin, CNC i weld a oes modd rhannu Cynllun Gweithredu SACROG gydag Is-grŵp y Fforwm Rheoli Tir unwaith y bydd ar gael.

Dywedodd Rachel fod NFU Cymru wedi cael cais ym mis Rhagfyr i fod yn rhan o'r SACROG ac yn y cyfamser, fe'u gwahoddwyd hefyd i ymuno â'r Grŵp Technegol Amaethyddol a hefyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar fasnachu maethynnau. Dywedodd Rachel mai'r cyfarfod SACROG cyntaf iddi ei fynychu oedd yr un wythnos cyn diwethaf, ac ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos bod ganddo drefniant llywodraethu dryslyd iawn. Doedd llawer o drafodaethau'r grŵp hwnnw ddim yn arbennig o strategol. Efallai bod llawer o orgyffwrdd a dyblygu hefyd gyda'r gwaith sy'n digwydd mewn grwpiau eraill. Bwriad cyfarfod SACROG oedd ystyried cynllun gweithredu drafft ac fe gawson ni tan ganol wythnos diwethaf i roi sylwadau ysgrifenedig yn ôl ar y cynllun gweithredu hwnnw, rhywbeth mae NFU Cymru wedi'i wneud. Mae awydd i lansio'r cynllun gweithredu hwnnw yn Uwchgynhadledd y Prif Weinidog ar 9 Chwefror. Roedd Rachel ar ddeall y bydd pob un o'r sefydliadau a gafodd wahoddiad i Uwchgynhadledd Ffosffad y Sioe Fawr yn derbyn gwahoddiad i uwchgynhadledd mis Chwefror. Hefyd, trefnodd Syr David Henshaw rag-gyfarfod cyn yr uwchgynhadledd, a gynhaliwyd yr wythnos ddiwethaf. Yn y rhag-gyfarfod, awgrymodd Rachel ei bod hi'n amlwg fod rhanddeliaid eraill wedi sylwi ar ddiffyg cydlyniant a diffyg gweledigaeth a chenhadaeth glir. Efallai bod angen gafael cryfach o safbwynt rheoli prosiect ar y mater penodol hwn gan ei bod yn ymddangos bod yna elfen o fynd o gwmpas mewn cylchoedd. Dywedodd Rachel fod NFU Cymru'n cynrychioli'r sector ffermio ac yn awyddus iawn i gymryd rhan ond mae'n bwysig peidio dyblygu ymdrech.

Eitem 4 Diweddariad y Prosiect Llaeth

10. Ymunodd Nicola Mills (Uwch Swyddog Llaeth, CNC) â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Prosiect Llaeth. Caroline yw Prif Ymgynghorydd y Prosiect Llaeth ac mae wedi bod yn y swydd ers mis Medi diwethaf. Cyn hynny, Caroline oedd Arweinydd Tîm Amgylchedd De Powys yn CNC.
11. Rhoddodd Caroline gefndir cryno i'r Prosiect Llaeth. Prosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru a CNC yw'r Prosiect Llaeth, a oedd ar waith rhwng diwedd 2018 a dechrau 2023. Nod y prosiect yw lleihau amlder a difrifoldeb llygredd fferm laeth drwy roi cyngor rhagweithiol i ffermwyr a rheolwyr tir a thrwy hynny gyflwyno camau y cytunwyd arnynt gan Is-Grŵp y Fforwm ar Lygredd Amaethyddol. Mae'r prosiect wedi darparu cyngor atal llygredd ar 937 o ffermydd llaeth ledled Cymru. Ar gyfer pob fferm, cynhyrchwyd adroddiad yn manylu ar fesurau gwella oedd eu hangen i leihau'r risg o lygredd.
12. Dangosodd Caroline dabl a map oedd yn dangos y ffermydd yr ymwelwyd â nhw ar hyd a lled Cymru. Roedd crynodiad mawr o ffermydd llaeth yn Sir Gâr, y Gogledd-ddwyrain a'r De-ddwyrain. Roedd cryn dipyn o ymweliadau ym Mhowys hefyd. Dywedodd Caroline eu bod yn bwriadu troshaenu'r data hwn ar ardaloedd sy'n agored i lawer o ddŵr daear, a hefyd lle mae dalgylchoedd ACA sy'n methu fel y gallwn drosglwyddo'r prosiect i'r Timau Amgylchedd. Mae angen i ni gadw perthynas dda iawn â ffermwyr yn

yr ardaloedd penodol hyn a sicrhau ein bod yn gallu gwneud popeth posib i'w helpu i gydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

13. Roedd pob adroddiad a gynhyrchwyd yn cynnwys gwybodaeth am ofynion, argymhellion, trosolwg o lwyth maethynnau, diweddariad ar ddeddfwriaeth a manylion cyswllt sefydliadau a allai roi cymorth ac arweiniad pellach.
14. Dangosodd Caroline siart cylch a oedd yn dangos nifer y dyddiau storio ar sampl o'r ffermydd. Roedd tua 40% o'r ffermydd naill ai ar lefel storio 120 diwrnod storio neu drosodd a oedd yn ofynnol dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010. Fodd bynnag, nawr bod y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ar waith, rydym wedi sylwi bod niferoedd cyson yn manteisio ar geisiadau cynllunio i gynyddu capasiti storio a gwelliannau i glampiau silwair. Mae rhai ffermwyr yn buddsoddi yn eu seilwaith i fodloni gofynion y rheoliadau. Er bod rhai gwelliannau'n fuddsoddiadau mawr (e.e., storfeydd slyri newydd, codi to dros storfeydd slyri presennol ac ati), awgrymodd Caroline mai un o fanteision gwirioneddol y prosiect oedd bod Swyddogion a ffermwyr yn mynd o amgylch y fferm yn nodi ymyriadau eithaf syml a rhatach o bosib, fel trwsio cwteri a sicrhau nad yw dŵr glaw glân yn llifo i fuarthau budr. Gall y rhain helpu i gynyddu faint o ofod storio slyri sydd ar gael yn sylweddol.
15. Dangosodd Caroline siart yn tynnu sylw at y cynnydd mewn ymgynghoriadau cynllunio sydd wedi'u derbyn gan yr Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfer storfeydd slyri, storio tail a gwahanol welliannau ar y ffermydd. Roedd Caroline yn cydnabod bod y pandemig wedi effeithio ar y data hwn, mae'n debyg.
16. Mae staffio'r prosiect yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth 2023. Ar hyn o bryd mae gennym dri swyddog yn weddill, er bod un ohonynt wedi sicrhau swydd arall yn ddiweddar mewn rhan arall o CNC. Mae hyn yn cyflwyno heriau o ran cau'r prosiect, ond mae'n bwysig bod y data a'r wybodaeth ddefnyddiol yn cael eu trosglwyddo i'r Timau Amgylchedd ac os cawn unrhyw staff eraill ar gyfer y rheoliadau newydd.
17. Gofynnodd Creighton a oes modd rhannu copi o'r cyflwyniad. Soniodd Creighton bod 28 o staff wedi bod yn rhan o'r prosiect ers y cychwyn cyntaf yn 2018 a gofynnodd beth yw nifer presennol o staff a faint sydd mwn swyddi ar hyn o bryd. Dywedodd Caroline fod tri aelod o staff ar ôl ar hyn o bryd, ond mae un ohonyn nhw ar fin derbyn swydd arall. Mae un yn gweithio yn y Gogledd-orllewin a'r llall ym Mhowys. Gofynnodd Creighton beth ddylai'r niferoedd fod – mae hyn wedi bod yn broblem fawr ers dechrau'r prosiect, lle mae pobl wedi dod i swyddi gyda'r Prosiect Llaeth ac yna'n gadael am swyddi eraill gyda CNC sydd wedi'u hariannu'n barhaol. Doedd Caroline ddim yn siŵr beth ddylai'r union niferoedd fod yn sgil ymuno â'r Prosiect Llaeth ychydig fisoedd yn ôl yn unig, ond efallai 5 neu 6 ledled Cymru. Gofynnodd Caroline a oedd unrhyw gydweithwyr yn y cyfarfod yn gwybod. Dywedodd Creighton ei fod wedi cael gwybod yn y gorffennol bod 14 swydd yn y Prosiect Llaeth a gofynnodd i Caroline egluro'r ffigyrau ar ôl y cyfarfod. Cytunodd Caroline i wirio ffigyrau staff y Prosiect Llaeth a'u rhoi i Bronwen.

PG 03 Ionawr: Bronwen i ddosbarthu copi o gyflwyniad Prosiect Llaeth Caroline Moscrop.

PG 04 Ionawr: Bronwen i egluro ffigurau staff y Prosiect Llaeth gyda Caroline Moscrop a'u dosbarthu i'r grŵp.

Soniodd Creighton am brosiect Axe yn Nyfnaint lle newidiodd Asiantaeth yr Amgylchedd y dull o archwilio ffermydd. Edrychon nhw ar faint o ffermydd oedd yn aelodau o gynlluniau achredu fferm a chanfod bod pob fferm sy'n llygru yn aelod o'r cynllun Tractor Coch. Gofynnodd Creighton a yw Swyddogion y Prosiect Llaeth yn casglu gwybodaeth am y ffermydd maen nhw'n ymweld â nhw ynglŷn ag aelodaeth o gynlluniau sicrwydd neu warrant. Dywedodd Caroline nad yw hi wedi sylwi ar y wybodaeth honno yn unrhyw un o'r adroddiadau. Gofynnodd Creighton a allai Caroline wirio hyn. Dywedodd Creighton fod y canfyddiadau yn Nyfnaint yn bwysig iawn ac os yw CNC am fwrw ymlaen â'r prosiect hwn, yna mae'n rhaid darparu'r wybodaeth yma. Mae cynlluniau achredu ffermydd yn cael eu cyflwyno fel ffordd o gynyddu lefel y monitro, ond mae'r achos yn Nyfnaint yn dangos nad ydynt yn effeithiol o ran sicrhau bod ffermydd yn bodloni rheoliadau amgylcheddol.

PG 05 Ionawr: Bronwen i wirio gyda Caroline Moscrop a yw'r Prosiect Llaeth yn casglu gwybodaeth am aelodaeth o gynlluniau achredu a'u dosbarthu i'r grŵp.

Soniodd Creighton bod Caroline wedi sylwi ar gynnydd mewn buddsoddiad fferm. Dywedodd Creighton ei fod wedi sylwi'n lleol bod llawer o ffermydd wedi buddsoddi mewn storfeydd slyri newydd (dwy fferm fawr iawn yn enwedig) ers i'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol gael eu cyflwyno. Gofynnodd Creighton a yw'r cynnydd yn swm y buddsoddiad yn ganlyniad i weithredu'r rheoliadau newydd. Dywedodd Caroline y byddai wedi meddwl hynny. Gofynnodd Creighton a allai Caroline ddarganfod beth oedd lefel y buddsoddiad cyn cyhoeddi'r rheoliadau a beth yw'r cynnydd ers cyhoeddi'r rheoliadau. Dywedodd Sarah Hetherington, CNC na allwn wneud y rhagdybiaeth honno oherwydd nad y rheoliadau yw'r unig beth sydd wedi newid, does dim 'gwrth-fffaith' gan fod ffrydiau ariannu wedi dod ar-lein hefyd. Holodd Creighton pa fath o gynnydd sydd wedi bod ers cyhoeddi'r rheoliadau ar 27 Ionawr 2021. Dywedodd Caroline fod yr ymgynghoriadau gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ganddyn nhw a'u bod wedi edrych pa rai sydd â'r geiriau 'tail' a 'slyri' ynddyn nhw fel ffordd o adnabod ceisiadau perthnasol. Awgrymodd Caroline y gallai edrych ar y gronfa ddata honno a gweld beth yw'r niferoedd cyn ac ar ôl y dyddiad hwnnw.

PG 06 Ionawr: Bronwen i wirio gyda Caroline Moscrop nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer storfeydd slyri newydd cyn ac ar ôl dyddiad cyhoeddi'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ar 27 Ionawr a'u dosbarthu i'r grŵp.

18. Soniodd Chris Mills, WEL mai amcan y prosiect oedd lleihau amllder a difrifoldeb llygredd gan ffermydd llaeth. Gofynnodd Chris pa ddadansoddiad sydd yna o lwyddiant bodloni'r amcan hwnnw ac o ran strwythur y prosiect, beth wnaethoch chi ei roi ar waith i brofi hynny mewn gwirionedd. Dywedodd Caroline y byddai'n anodd dweud yn bendant na ddigwyddodd achos o lygredd oherwydd y prosiect hwn. Dywedodd Chris ei bod yn ymddangos mai un o wendidau sylfaenol y prosiect yw nad oes pwynt gosod amcan o'r fath os nad oes gennyh resymeg a strwythur i'w brofi mewn gwirionedd. Ond ymhen amser, efallai bydd rhywfaint o'r cyngor yn troi'n fesurau fyddai'n atal llygredd amaethyddol.

Dywedodd Chris mai ychydig iawn o le storio oedd gan gyfran frawychus o uchel o ffermydd, a byddai rhywun yn gobeithio y byddai'r ffermwyr hynny'n cael amser i unioni

hynny. Pe baen nhw ddim yn ei unioni o fewn yr amser hwnnw, yna byddai camau gorfodi'n cael eu cymryd. Gofynnodd Chris a allai Caroline wneud sylw ar hynny. Dywedodd Caroline fod ffermwyr yn cael dyddiad penodol i weithredu gwelliannau, yna byddai'r Swyddogion Llaeth yn cynnal ailymweliad er mwyn sicrhau bod y gwelliannau'n cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, gwelodd Swyddogion Llaeth fod cryn dipyn o ffermydd wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu llaeth, a bod o leiaf 200 o ffermydd yr ymwelwyd â nhw i ddechrau wedi gadael y diwydiant. Awgrymodd Chris y dylai adroddiad terfynol y prosiect fynd i'r afael â'r materion hyn a dadansoddi'r hyn sydd wedi digwydd mewn perthynas â llygredd amaethyddol dros gyfnod y prosiect a rhywfaint o ddadansoddiad o'r modd rydych chi wedi ymdrin ag achosion o ddiffyg cydymffurfio.

19. Soniodd David Ball, AHDB am y siart cylch a bod Caroline wedi dweud bod gan 40% o ffermydd gapasiti storio dros y 120 diwrnod, ond mae'r rheoliadau newydd yn gofyn am gapasiti storio am 150 diwrnod. Gofynnodd David a oes unrhyw ddata sy'n mesur nifer y ffermydd sydd â digon o le storio am y 150 diwrnod. Dywedodd Caroline fod modd cael y data hwnnw. Y rheswm pam yr oedd yn 120 diwrnod oedd oherwydd hyd y Prosiect Llaeth a'r Rheoliadau SSAFO. Cafodd llawer o'r adroddiadau a ysgrifennwyd eu fframio o amgylch y ddeddfwriaeth honno yn hytrach na'r ddeddfwriaeth newydd.

PG 07 Ionawr: Bronwen i wirio gyda Caroline Moscrop faint o ffermydd yr ymwelwyd â nhw yn ystod y Prosiect Llaeth oedd â lle storio am 150 diwrnod, a'u dosbarthu i'r grŵp.

Gofynnodd David a oedd unrhyw wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymweliadau hyn am ddwysedd stocio ar y ffermydd. Dywedodd Caroline fod y wybodaeth hon wedi'i chasglu. Dywedodd David y byddai'n ddata pwysig iawn i roi rhyw fath o ddarlun o'r dwysedd stocio ar draws ffermydd, ac felly maint y newid a'r gwaith fyddai'n ofynnol i gydymffurfio â'r rheoliadau, yn enwedig y terfyn 170kg. Dywedodd Caroline fod y dwysedd stocio'n fetrig allweddol er mwyn cyfrifo llwyth maethynnau'r fferm a'r gofyniad dilynol ar gyfer storio.

20. Ers sefydlu'r prosiect, dywedodd Rachel ei bod hi'n awyddus iawn i geisio mynd at wraidd y mater a'i bod wedi gofyn i ragflaenydd Caroline gasglu data ar bethau fel ffermydd â TB Buchol) oherwydd mae'n amlwg nad ydynt yn gallu rheoli'r lefelau stocio yn ystod y cyfnod hwnnw. Felly, faint o le storio sy'n ddigon pan mae ffermydd wedi'u taro ag achos o TB oherwydd ni allwch symud eich stoc. Y peth allweddol arall yw deiliadaeth tir gan nad yw ffermwyr sy'n denantiaid yn gallu cael yr arian i wneud buddsoddiadau, ac yn aml mae'r landlord yn gwrthod. Dyma'r math o achosion sydd angen eu harchwilio.

Dywedodd Rachel ei bod yn wir ddrwg ganddi glywed bod y Prosiect Llaeth yn dod i ben am fod NFU Cymru wedi dadlau dros ddull sy'n gweithio gyda ffermwyr. Rydym wedi gweld bod y berthynas rhwng staff CNC a ffermwyr wedi lleihau dros y blynyddoedd ac rydyn ni am weld hynny'n cae ei ailsefydlu. Hoffem weld pob ffermwr yn gallu codi'r ffôn a chael sgwrs gyda Swyddog CNC i gael y cyngor a'r arweiniad gorau ar reoleiddio, ond nid yw hynny'n bodoli ar hyn o bryd. Mae NFU Cymru wedi galw ers amser am y math hwnnw o ddull gweithredu gwasanaeth cyswllt ffermio, felly mae hyn yn ymddangos fel cam yn ôl. Cyfeiriodd Caroline at rai o'r problemau sy'n wynebu ffermwyr tenant a ffermydd Cyngor yn arbennig. O'i phrofiad hi, dywedodd Caroline fod y dull cynghori yn ffordd effeithiol o gael sgwrs adeiladol gyda ffermwr am

yr hyn sydd ei angen, beth fyddai o fudd i'w tir a sut y gallant gydymffurfio â rheoliadau. Mae'n drueni gwirioneddol bod y prosiect yn gorffen, ond bydd angen rhywfaint o adnoddau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rheoliadau newydd hefyd gan nad yw'r adnoddau gennym ar hyn o bryd i reoleiddio'r rheoliadau newydd yn effeithiol.

21. Dywedodd Dennis ei bod hi'n drueni bod y prosiect yn dod i ben. Gan ei fod wedi bod ar waith ers pedair blynedd, dylai holl ffermydd Llaeth Cymru fod wedi cael ymweliad erbyn hyn. Dywedwyd erioed mai diffyg cyllid yw'r rheswm pam mae cyn lleied o Swyddogion a pham mae wedi cymryd cyhyd. Dywedodd Dennis ei fod wedi sôn am hyn wrth Lywodraeth Cymru fis neu ddau yn ôl a chael gwybod bod digon o gyllid. Wel, os yw hynny'n wir yna rhaid mai sut y caiff ei ddyrannu o fewn CNC yw'r rheswm, sy'n broblem. Mae'n brosiect a ddylai fod wedi gweithio, a dyw e ddim mewn gwirionedd. Dywedodd Caroline ei bod hi'n anffodus fod y prosiect wedi colli cymaint o amser gyda chyfnodau clo Covid pan nad oedd swyddogion yn gallu mynd allan i ffermydd. Er bod swyddogion wedi ymweld â 930 o ffermydd, bu llawer o ailymweliadau hefyd felly mae'r ffigur yn llawer uwch o ran ymweliadau mewn gwirionedd. Gan fod cyllid braidd yn dameidiog ar brydiau, roedd Caroline yn deall nad oedd Swyddogion yn teimlo digon o sicrwydd swydd ac felly'n symud ymlaen i rolau parhaol ac o fewn CNC.

22. Dywedodd Chris Mills ei fod ychydig yn anesmwyth ynghylch y dryswch am rolau gwahanol. Awgrymodd Chris bod tri darn allweddol yma. Mae buddsoddiad a'r angen am fuddsoddiad, a'r angen am gymorth gyda'r buddsoddiad hwnnw mewn rhai achosion, sy'n ymddangos fel rôl i'r llywodraeth yn bennaf. Mae angen cyngor, ac mae angen i'r cyngor hwnnw fod yn annibynnol ar reoleiddio a gorfodi. Yna mae rheoleiddio a gorfodi, sef y rhan sy'n wan iawn, ac mae angen set sylfaenol o safonau mae pob ffermwr yn cydymffurfio â nhw, fel unrhyw un arall gydag unrhyw fath o ddeddfwriaeth. Mae angen cael adnoddau digonol i hynny ddigwydd, ac mae'n siomedig iawn cael y datganiad 'does gennym ni mo'r adnoddau i reoleiddio'r rheoliadau newydd'. Er y gall hynny fod yn wir, dywedodd Chris ei fod yn gwbl annerbyniol, ac mae'n dangos bwlbch mawr mewn cyfathrebu rhwng y rhai sy'n pennu'r gyfraith a'r rhai sy'n gyfrifol am ei gweithredu. Dywedodd Chris fod angen i'r rolau a'r cyfrifoldebau fod yn glir iawn, a'u bod nhw wedi bod yn ddryslyd ac yn gorgyffwrdd am gyfnod rhy hir o lawer. Dywedodd Caroline mai un o gryfderau'r Prosiect Llaeth oedd nad swyddogion â gwarant oedd y Swyddogion Llaeth mewn gwirionedd, ond Swyddogion Cynghori a oedd yn helpu i annog sgysiau agored ar ffermydd. Mae CNC yn siarad â Llywodraeth Cymru am adnoddau i reoleiddio'r ddeddfwriaeth newydd.

Soniodd Chris ei fod wedi bod yn y busnes rheoleiddio hwn ers dros 30 mlynedd. Arferai fod rhywbeth o'r enw atal llygredd a rheoli llygredd, ac roedd y ddwy rôl yn amlwg ar wahân. Mae'n ddigon hawdd sôn am reoleiddio a gorfodi, ond ar hyn o bryd does dim strategaeth yn CNC i wneud hynny ar hyn o bryd, ac mae angen cydnabod maint y broblem oherwydd bod, neu roedd tua 24,000 o ffermydd yng Nghymru. Dywedodd Chris fod angen i chi fod yn eithaf clyfar i allu llunio strategaeth sydd â lefel realistig o adnoddau.

23. Ategodd Zoe ei bod yn anffodus iawn bod y Prosiect Llaeth yn dod i ben ym mis Mawrth ac awgrymodd bod cyfle i symud ymlaen yma gan ein bod wedi dysgu cymaint ohono. Dywedodd Zoe fod ganddi gyfarfod Bwrdd CNC yr wythnos hon ac y bydd yn codi hyn.

Eitem 5 Diweddariadau'r Aelodau a Thrafodaeth Rhagolwg

24. Dywedodd Creighton mai dyma'r adeg o'r flwyddyn pan fydd cymdeithasau pysgota lleol yn cynnal eu cyfarfodydd cyffredinol blynyddol. Fel arfer mae Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin yn cael gwahoddiadau i'r cyfarfodydd hynny er nad ydym yn boblogaidd iawn bob amser oherwydd rhai o'r pethau a ddywedwn. Mae'r Ffederasiwn yn mynd i gyfarfod Cymdeithas Pysgota Crosshands a'r Cylch ddiwedd y mis a dyma'r clwb mwyaf ar y Tywi. Maen nhw'n debygol o ofyn cwestiynau am waith yr Is-Grŵp Fforwm hwn a gwaith CNC yn gyffredinol. Dywedodd Creighton ei fod yn rhoi cyflwyniad cyffredinol am y grŵp hwn a gwaith gorfodi arall mae CNC yn ei wneud mewn perthynas â physgodfeydd. Awgrymodd Zoe y gallai Creighton rannu ei gyflwyniad gyda'r grŵp.

PG 08 Ionawr: Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin i rannu copi o'i gyflwyniad i Gymdeithasau Pysgota Lleol.

25. Dywedodd Einir fod Cyswllt Ffermio'n cynnal mwy o weithdai mapio risg lle gall pobl ddod draw a chael eu haddysgu sut i greu mapiau risg sy'n ofynnol gan Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Mae'r gweithdai hyn yn boblogaidd iawn, ynghyd â'r gweithdai ar gyfer y gweithlyfr. Mae Cyswllt Ffermio ar fin dechrau creu fideos 'sut i wneud' hefyd a fydd yn dangos i ffermwyr sut i wneud y mapiau a llenwi'r gweithlyfr. Dywedodd Einir eu bod yn gweithio ar weithdai digidol hefyd gan nad oes modd trefnu digon o gyfarfodydd wyneb yn wyneb i bawb sydd eu hangen, felly bydd gennym gyfres o weithdai ar-lein penodol i'r sector. Soniodd Zoe am ddarllen cofnodion y cyfarfod diwethaf lle'r oedd ffermwyr Grŵp Dŵr y Bannau yn siarad am fapio risg, ond hefyd yn ei alw'n 'fapio cyfle' sy'n beth cadarnhaol iawn i dynnu sylw pobl eraill ato.

26. Dywedodd Fraser McAuley, CLA nad oes unrhyw beth penodol i'w rannu gan CLA. Maen nhw wrthi'n ymateb i sawl ymgynghoriad ar hyn o bryd. Mae'r ochr anamaethyddol o bethau'n cymryd tipyn o amser cydweithiwr CLA, yn enwedig yn ymwneud â'r diwydiant gwyliau a thwristiaeth. Mae'r ymgynghoriad trwyddedu wedi cymryd tipyn o amser hefyd ac mae CLA yn casglu safbwyntiau'r aelodau am hynny.

27. Awgrymodd Zoe fod angen rhagolwg yn agenda'r dyfodol. Dywedodd Zoe y bydd yn bwysig cadw trefn ar yr holl grwpiau gwahanol, yn enwedig oherwydd gorgyffwrdd.

28. Soniodd Bronwen am rai o'r cyflwyniadau gwadd sydd ar y gweill ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. Dywedodd Bronwen ei bod hi wrthi'n trefnu ymweliad safle posib ar gyfer y gwanwyn.

29. Dywedodd Chris Mills fod pawb yn gweld hwn yn fforwm defnyddiol iawn ar gyfer rhannu gwybodaeth. Bu un neu ddwy enghraifft fel yr Adroddiad Mesurau Amgen, lle mae'r grŵp wedi cyfrannu rhywbeth yn benodol. Awgrymodd Chris fod angen ailedrych ar y Cylch Gorchwyl gwreiddiol efallai i weld a oes rôl bellach i'r grŵp hwn y tu hwnt i rannu gwybodaeth yn unig. Ar ddiwedd y dydd, canlyniadau a cheisio lleihau llygredd amaethyddol sy'n bwysig. Dywedodd Bronwen fod gan y grŵp hwn rôl o ran cyflawni hefyd, ac y byddem yn hoffi cyflawni mwy o bethau yn y dyfodol, ond bod angen i bawb feddwl am syniadau a chysyniadau ar y cyd am beth allai hyn olygu a sut allwn ni wneud iddo ddigwydd (e.e. adnoddau/amser sydd ar gael). Efallai ei fod yn rhywbeth ar raddfa fach i ddechrau, ond yn y pen draw mae angen i'r grŵp benderfynu beth i'w wneud.

Dyweddodd Sarah Hetherington fod y grŵp wedi dechrau ar ôl trafodaethau cychwynnol am dystiolaeth. Roedd rhai rhaglenni gwaith yn ymwneud â'r argymhellion a oedd yn cynnwys y gwaith a gomisiynwyd gan Cyswllt Ffermio ar reoli maethynnau. Mae'r grŵp wedi cyfrannu at argymhellion eraill hefyd fel adroddiad y Mesurau Amgen. Dywedodd Sarah mai un o'r dyheadau ar gyfer yr eitem agenda hon yw cael rhagolwg lle allwn ni gyd gydweithio i gyflawni amcanion, nid dim ond rhannu sail wybodaeth yn unig. Yn y gorffennol, roedd Creighton wedi cyflwyno cyfres o weithdai gyda ffermwyr yn y de-orllewin gyda Cyswllt Ffermio a'r undebau ffermio hefyd. Mae'n golygu sicrhau bod y rhaglenni gwaith hynny'n ennill eu plwyf er mwyn cyflawni'r amcanion. Beth allwn ni ei wneud fel grŵp i symud ymlaen mewn gwirionedd? Gofynnodd Chris beth yw'r canlyniadau hyn oherwydd gallai helpu i lywio cyfeiriad yr hyn rydyn ni'n ei wneud mewn gwirionedd. Dywedodd Sarah fod hyn yng Nghylch Gorchwyl y grŵp.

PG 09 Ionawr: Bronwen Martin, CNC i ddosbarthu copi o Gylch Gorchwyl Is-Grŵp y Fforwm.

Ategododd Zoe fod angen penderfynu fel grŵp beth rydyn ni am weithio arno nesaf a sut y gallwn ei gyflawni ar y cyd. Mae cyfathrebu'n rôl bwysig iawn i'r grŵp hwn hefyd ac mae llawer o'r aelodau yn gweld hynny'n ddefnyddiol iawn. Mae cyflwyno adroddiad y Mesurau Amgen yn llwyddiannus y llynedd yn enghraifft o'r hyn y gall y grŵp ei wneud. Awgrymodd Zoe fod angen inni feddwl beth mae'r grŵp am ganolbwyntio arno nesaf. Dywedodd Zoe yn y gorffennol, ein bod wedi cael trafferth wrth weithio ar ormod o bethau a threulio llawer o amser yn ceisio cychwyn pethau fel y gwaith mapio maethynnau. Soniodd Sarah fod y gwaith hwnnw wedi bod yn digwydd y tu ôl i'r llenni ac fe wnaeth Bronwen ddosbarthu adroddiadau olaf y Prosiect Llwyth Maethynnau yn ddiweddar:

- Pecyn gwaith 1: [Cyfyngiadau i adfer ac ailgylchu maethynnau i dir amaethyddol yng Nghymru \(Adroddiad WP1\)](#)
- Pecyn gwaith 2: [Asesiad o'r banc tir yng Nghymru ar hyn o bryd \(Adroddiad WP2\)](#).

Atgoffodd Sarah y grŵp fod Bronwen wedi sôn y bydd John Williams o ADAS yn siarad â'r grŵp yma am y Prosiect Llwyth Maethynnau ym mis Mawrth. Dywedodd Bronwen fod y prosiect hwnnw'n gysylltiedig ag un o argymhellion y grŵp hwn. Comisiynwyd y prosiect gan Lywodraeth Cymru, ADAS oedd y contractwyr a CNC fu'n rheoli'r prosiect.

Awgrymodd Chris Mills ffordd ymlaen, efallai dosbarthu'r Cylch Gorchwyl eto, ac yn ein cyfarfod nesaf gallwn drafod pa ganlyniadau sy'n deillio o hynny. Yna gall y grŵp gynnig ychydig o ganlyniadau yn y flwyddyn i ddod o bosib, y gallem geisio canolbwyntio arnynt, yn ogystal â rhannu gwybodaeth yn gyffredinol. Cytunodd Zoe ar y dull hwn a gofynnodd i'r grŵp feddwl am hyn yn y cyfamser a pha ganlyniadau yr hoffem i'r grŵp hwn weithio arnynt yn 2023.

PG 10 Ionawr: Dylai'r grŵp feddwl pa ganlyniadau y dylai Is-Grŵp y Fforwm weithio arnynt yn 2023.

Eitem 6 Unrhyw Fater Arall

30. Cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm ddydd Llun 20 Medi 2023.

31. Ni chodwyd unrhyw fater arall.

Diwedd y cyfarfod